

## 96591 - Butetown: Ysgol Gynradd y Forwyn Fair: Mesurau Diogelwch Ysgol

12 Hydref 2020

### Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor wedi gofyn am gynnwys gwaith gwella priffyrdd fel rhan o'r cytundeb cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygu Ysgol Gynradd y Forwyn Fair.

Bydd y gwaith arfaethedig i wella priffyrdd yn cynnwys darparu mesurau diogelwch ysgol ar Stryd Bute, Stryd Maria a Rhodfa'r Gamlas, gyda mesurau arafu traffig, gwelliannau i'r droedffordd a chyfleusterau croesfan sebra yn cael eu gosod ger adeilad newydd yr ysgol. Bydd y cynllun hwn yn gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig i gerddwyr a beicwyr a bydd yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio i'r ysgol.

Yn ogystal â'r mesurau hyn, bydd terfyn cyflymder newydd o 20mya yn cael ei gyflwyno ar Stryd Bute a'r strydoedd cyfagos. Bydd y newid hwn i'r terfyn cyflymder yn gofyn am Orchymyn Rheoli Traffig (GRhT), a fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân fel rhan o broses gyfreithiol Gorchmynion Rheoli Traffig.

Mae angen y cynllun i gyflawni amod cynllunio ar y cais cynllunio 19/02851/MJR y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar 27 Mai 2020.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod awgrymiadau eraill gennych i wella diogelwch ar hyd Bute Street a Rhodfa'r Gamlas. O ganlyniad i gyfyngiadau ariannol efallai na allwn newid y cynlluniau hyn yn sylweddol ar hyn o bryd, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a ddaw i law er mwyn eu cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn **6.11.2020** i [ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ysgrifennwch i Projectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.

### Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Parthau 20 mya. Wrth deithio 20mya y pellter stopio i gar yw 12 metr (40 troedfedd), o gymharu â 24 metr (75 troedfedd) wrth deithio 30 mya. Mewn damwain bydd perygl o 1 mewn 20 yn unig y bydd car yn lladd cerddwr, o gymharu â pherygl o 1 mewn 2 wrth deithio 30 mya. Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i leihau'r perygl i holl ddefnyddwyr y ffordd. Yn achos cerddwyr mae defnyddio croesfan ac, os oes angen, cerdded ar y ffordd, yn llawer mwy diogel a derbyniol. Mae'n ofyniad statudol bod parthau 20mya yn cynnwys **nodweddion arafu traffig** gyda dim mwy na 100 metr rhyngddynt, a rhaid i'r rhain fod wedi eu dylunio i sicrhau bod cerbydau yn teithio ar gyflymder cyfartalog o 20 mya.

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Cyffordd Fwrdd. Mae cyffordd fwrdd yn debyg i dwmpath ffordd. Dyrchefir y gyffordd gyfan i greu platfform, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae darparu cyffordd fwrdd yn creu cyffordd ddiogelach drwy arafu'r holl gerbydau sy'n agosáu at y gyffordd gan felly gynnig allanfa ddiogelach o bob rhan o'r gyffordd.

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr arwyddion neu'r llinellau'n cael eu gosod ar y safle a gall gael ei orfodi gan yr Heddlu neu Swyddogion Gorfodi Sifil.

Bwrdd Arafu. Amrywiaeth yw hwn ar y twmpath arafu lle mae pen uchaf y rhan ddyrchafedig (y bwrdd) dros ddwy fetr o led. Mae hyn yn achosi llai o anesmwythdra i deithwyr bws gan fod yr ardaloedd codi a disgyn wedi eu gwahanu gan y darn dyrchafedig. Defnyddir y rhain weithiau ar y cyd â chroesfannau cerddwyr er mwyn lleihau cyflymder a gwneud y groesfan yn fwy gweladwy i yrwyr.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros groesfan pâl. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â **rhwystrau ymwithiol** sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. **Croesfan sebra** sy'n cynnwys **bwrdd arafu**, neu sydd ar **gyffordd fwrdd**, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Croesfan Sebra Paralel. Mae hwn yn fath newydd o groesfan, yn debyg i groesfan sebra, a fydd yn caniatáu croesfannau paralel i gerddwyr a beicwyr. Mae'r groesfan hon yn debyg o ran edrychiad i groesfan sebra ond gyda llwybr paralel i feicwyr o fewn yr ardal a reolir o'r groesfan. Rhaid i yrwyr roi'r ffordd i feicwyr a cherddwyr wrth y groesfan.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrw yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.

Rhwystrau Ymwithiol. Darn o lwybr troed sydd wedi ei ledu. Gellir eu defnyddio mewn sawl gwahanol sefyllfa, e.e. wrth ail-lunio cyffyrdd, diffinio ardaloedd parcio neu leihau'r pellter sydd i gerddwyr groesi'r ffordd. Gallant wella gwelededd i ac o gerddwyr neu yrwyr sy'n aros wrth gyffordd.

Rhwystrau Ymwthiol wrth Gyffordd. Y defnydd o **rhwystrau ymwthiol** wrth gyffordd. Yn y lleoliadau hyn maen nhw'n rhwystro cerbydau rhag cael eu parcio'n rhy agos at gyffordd, gan wella gweledd, a gallant hefyd gynnig **parcio gwarchoddedig**.

Parcio Gwarchoddedig. Dyma lle bydd **rhwystr ymwthiol** ar ddiwedd **ardal barcio**. Mae'r rhwystr ymwthiol yn gwarchod cerbydau sydd wedi eu parcio rhag gwrthdrawiadau.

Ardal Barcio. Darn o ffordd sydd fel arfer tu ôl i linell wen doredig, ond ni ddylid drysu rhwng hyn a lôn seiclo. Bydd rhai ardaloedd parcio ond yn gwahaniaethu rhwng yr ardal ar gyfer parcio a'r ardal i'w defnyddio gan draffig heb gyfyngu'r amseroedd parcio na nodi pa gerbydau all barcio yno. Rheoleiddir ardaloedd eraill gan **Orchymynion rheoleiddio traffig** sy'n cyfyngu'r defnydd o'r ardal trwy osod arwyddion cyfagos ac mewn rhai achosion caiff yr ardal ei gwahanu'n gilfannau parcio unigol.

Porth Cul. Dyma lle defnyddir **rhwystrau ymwthiol** i gulhau'r ffordd gymaint â phosibl ar gyfer traffig dwyffordd, fel bod gyrwyr yn ymwybodol eu bod yn cyrraedd darn penodol o ffordd, er enghraifft, tu allan i ysgol neu **Barth 20 mya**. Gellir defnyddio cyfuniad o fesurau fel **bwrdd arafu**, wyneb lliw neu farciau ffordd eraill yn ôl yr angen.

Bolard. Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

Llwybr a Rennir Mae'r llwybr troed hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. I sicrhau bod pob cerddwr a beiciwr yn gallu ei ddefnyddio heb drafferth, bydd y llwybrau hyn fel arfer yn dri metr o led a chânt eu nodi gan arwyddion a marciau ffordd. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd y llwybr yn cael eu rhannu gyda cherddwyr ar un ochr a beicwyr ar yr ochr arall, ond mae angen llwybr lletach ar gyfer hyn a gall achosi problemau os nad yw'r defnyddwyr yn sylwi pa ochr y dylent ddefnyddio. Mae'r llwybr lletach o ddefnydd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a chadeiriau gwthio. Mae hefyd o fudd i feicwyr, yn enwedig y rhai sydd angen defnyddio beiciau tair olwyn neu ôl-gerbydau oherwydd oed neu anabledd ac i'r rheiny sy'n ifanc iawn neu sy'n feicwyr dibrofiad.



**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau' neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhwngch wybod i ni erbyn **6/11/2020**



**Allwedd/Key**

- Gardd law arfaethedig gyda system ddraenio gynaliadwy - Proposed rain garden with sustainable drainage system
- Llwybr troed palmantog - Paved footway
- Adelladu ffordd gerbydau arfaethedig - Proposed carriageway Construction
- Alinio'r cwrw - Kerb alignment
- Cyrbau mynediad - Access kerbs (bus boards)
- Palmant Botymog - Tactile paving




**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **6/11/2020**



**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau' neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **6/11/2020**



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **6/11/2020**